



## GWASANAETHAU ADDYSG

### Clwstwr Ardal Ysgol Dyffryn Conwy

#### TREFNIANT SECONDIAD neu GYTUNDEB DROS DRO gyda'r posibilrwydd o 1 swydd llawn amser parhaol o'r 1af o Ebrill 2022.

Dylai ymgeiswyr sy'n ystyried secondiad sicrhau caniatâd eu Rheolwr Llinell/Pennaeth/Corff Llywodraethol cyn ymgeisio.

I ddechrau ar 01/05/2021 – hyd 31 Mawrth 2022.

### 1 x SWYDD RHEOLWR BUSNES LLAWN AMSER - CLWSTWR YSGOLION CYNRADD 1 X SWYDD RHEOLWR BUSNES RHAN AMSER - CLWSTWR YSGOLION CYNRADD

**Oriau:** Swydd llawn amser - 37 awr yr wythnos – Tymor yr Ysgol yn unig a 5 diwrnod hyfforddiant  
Swydd rhan amser – 22.5 awr yr wythnos – Tymor yr Ysgol yn unig a 3 diwrnod hyfforddiant  
**Cyflog:** Graddfa NJC G08 PT 30 - 33 (Pro Rata)

Mae'r Grant Ysgolion bach a gwelldig gan Lywodraeth Cymru yn parhau am flwyddyn ychwanegol ac rydym am benodi 2 x Rheolwr Busnes i weithio ar sail clwstwr yn Ardal Dyffryn Conwy i gefnogi 16 o ysgolion cynradd y dalgylch.

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn atebol i Reolwr Busnes Ysgol Dyffryn Conwy. Mae profiad blaenorol o weinyddu ynghyd a'r gallu i gyfathrebu yn effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig yn hanfodol ar gyfer y swyddi yma. Byddai profiad/gwybodaeth am gyllidebu a/neu adnoddau dynol yn ddymunol.

Pan fydd rheoliadau Covid yn caniatáu bydd disgwyl i'r ymgeiswyr llwyddiannus drafailio o'r 'Hwb' yn Ysgol Dyffryn Conwy i Ysgolion penodol (dim costau teithio).

Oherwydd natur y swydd byddwn yn gofyn am ddatgeliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr ymgeisydd llwyddiannus.  
Mae Conwy wedi ymrwymo i ddiogelu - bydd cymwysterau a geirdaon yn cael eu gwirio.

Mae croeso i ymgeiswyr gysylltu â Mrs Delyth Williams, Prif Reolwr Busnes Ysgol Dyffryn Conwy ar 01492 642865 er mwyn trafod y swydd ymhellach.

**I wneud cais am y swydd hon, ewch i [www.conwy.gov.uk/swyddi](http://www.conwy.gov.uk/swyddi) i lenwi cais ar lein.  
Noder nid yw'r awdurdod yn cyhoeddi ffurflenni cais ac nid yw'n derbyn CV.**

**Dyddiad cau: Hanner nos, Nos Iau 18<sup>fed</sup> o Fawrth 2021**

Os na fyddwch yn cael gwybod o fewn 3 wythnos wedi'r dyddiad cau eich bod ar restr fer ar gyfer cyfweiliad, rhaid i chi gymryd yn ganiataol na fyddwch yn cael cyfweiliad. Ni fyddwch yn cael gwybod hynny ar bapur.

Wrth fynd ati i hyrwyddo cyfle cyfartal, mae Conwy yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned.  
Bydd pob ymgeisydd anabl sy'n diwallu gofynion hanfodol swydd yn cael cyfweiliad.